**Deon Rhanbarthol ar gyfer Tsieina**

*Cyfle i ymgeiswyr mewnol yn unig.*

Bydd y Deon Rhanbarthol ar gyfer Tsieina yn ymuno â thîm newydd o Ddeoniaid rhanbarthol a fydd yn gweithio gyda'r Rhag Is-ganghellor Rhyngwladol, a'r Swyddfa Ryngwladol, i gyflawni uchelgeisiau rhyngwladol strategaeth newydd ein Prifysgol: *Prifysgol Caerdydd: ein dyfodol, gyda'n gilydd.*

I ddechrau, bydd pum Deon Rhanbarthol: ar gyfer Affrica, Cyfandiroedd America, Tsieina, India a'r Dwyrain Canol, ac mae'n debygol y bydd cyfleoedd ychwanegol yn dod i'r amlwg yn y dyfodol. Cewch eich cefnogi gan staff yn y Swyddfa Ryngwladol, a byddwch yn gweithio mewn partneriaeth â nhw a chydag ystod eang o gydweithwyr academaidd ar draws y sefydliad.

Bydd ein Deoniaid yn gweithio ar draws y portffolio rhyngwladol, gan ddatblygu partneriaethau addysg ac ymchwil sydd o fudd i'r ddwy ochr, cyfleoedd symudedd i staff a myfyrwyr, gweithgareddau cenhadaeth ddinesig ac archwilio ffyrdd o wella ac ehangu ein henw da a'n cyrhaeddiad yn y rhanbarth. Byddwch yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau partner, gan ddatblygu perthnasoedd gwaith agos mewn gwledydd allweddol. Yng Nghaerdydd, byddwch yn hyrwyddwr ac yn llysgennad ar gyfer y rhanbarth a chysylltiadau a gweithgareddau'r Brifysgol ynddo. Byddwch yn cynnal dirprwyaethau mewnol ac ymweliadau o'r rhanbarth.

Bydd gennych y gallu i ddatblygu gwybodaeth ddofn o'r rhanbarth. Byddwch yn dangos sgiliau arwain a chymhelliant ar lefel uchel, gydag ethos deniadol a chynhwysol o ran gweithio fel tîm, a'r gallu i gyfathrebu'n gadarnhaol â grŵp amrywiol o randdeiliaid a dylanwadu arnynt. Bydd gennych brofiad o baratoi strategaethau a pholisïau a'u rhoi ar waith. Bydd gennych hefyd ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o faterion addysg uwch ac ymchwil ehangach y tu hwnt i'ch maes academaidd eich hun, a'r gallu i ddatblygu dealltwriaeth o ddulliau llywodraethu academaidd da. Bydd gennych y gallu i weithio gyda'r tri Choleg a Gwasanaethau Proffesiynol ar draws holl gylch gorchwyl y Brifysgol, gan gynnwys addysg, ymchwil a chenhadaeth ddinesig.

Mae gan y swydd ymrwymiad cyllid digonol i brynu'r ymrwymiad amser sydd ei angen ar gyfer y rôl o Ysgol gartref deiliad y swydd. Bydd y rolau yn 0.5 CALl ac am gyfnod penodol o dair blynedd, gyda'r posibilrwydd o un tymor pellach o dair blynedd fel arfer. Bydd deiliad y swydd yn cael lwfans blynyddol di-bensiwn o £3,750. Mae'r swydd yn adrodd i'r Rhag Is-ganghellor Rhyngwladol.

**Cyfrifoldebau**

- Gweithio gyda'r Rhag Is-ganghellor Rhyngwladol, y Deoniaid Rhanbarthol a'r Swyddfa Ryngwladol i weithredu strategaeth ryngwladol y Brifysgol, Caerdydd Fyd-eang.
- Llunio strategaeth ymgysylltu ranbarthol gynhwysfawr sy'n cynnwys ehangder gweithgareddau rhyngwladol y Brifysgol, gydag amcanion a chynlluniau gweithredu i ddatblygu ymgysylltu presennol.
- Datblygu arbenigedd ac ehangu ein hymgysylltiad yn y rhanbarth ar draws gweithgareddau rhyngwladol Caerdydd, er mwyn hyrwyddo:
    - cyfleoedd byd-eang a gyflwynir drwy Horizon Europe, Turing, Taith, y Cyngor Prydeinig ac eraill;
    - cydweithio ar waith ymchwil rhyngwladol, gan gynnwys cyfleoedd ariannu ymchwil trawswladol; rhaglenni ymchwil trawswladol; a chyfleusterau a sefydliadau ymchwil ar y cyd sy'n rhan o gydweithio rhyngwladol (ar y cyd â'r Deoniaid Ymchwil);
    - symudedd allanol a mewnol myfyrwyr;

    - darpariaeth addysgol gydweithredol, gan gynnwys partneriaethau trawswladol a chyfleoedd addysg fyd-eang (mewn cydweithrediad â’r Deoniaid Addysg a’r Pennaeth Addysg Drawswladol).
- Mewn cydweithrediad â Rheolwr Rhanbarthol perthnasol y Swyddfa Ryngwladol a'r Pennaeth Recriwtio Rhyngwladol, cefnogi'r gwaith o nodi a chyfleu cyfleoedd sy'n cryfhau recriwtio myfyrwyr rhyngwladol.
- Cymryd rhan yng nghymdeithasau rhyngwladol presennol y Brifysgol a chwilio am gyfleoedd newydd. Cynrychioli'r Brifysgol mewn grwpiau diddordeb arbennig rhanbarthol.
- Datblygu a chyflawni partneriaethau teg a dwyochrog gyda phrifysgolion a sefydliadau ymchwil yn y rhanbarth, gan fynegi achos strategol clir dros bartneriaethau newydd a’r manteision i’r ddau bartner dros gyfnod o amser.
- Goruchwylio ac adolygu ein partneriaethau rhanbarthol presennol, gan sicrhau bod ein cysylltiadau y gorau y gallant fod ar gyfer y ddau barti ac yn ychwanegu gwerth at y Brifysgol (gan weithio ar y cyd â’r Pennaeth Partneriaethau Rhyngwladol).
- Gan weithio gyda’r tîm Datblygu a Chysylltiadau Cynfyfyrwyr, ymgysylltu â chynfyfyrwyr rhanbarthol a’u rhwydweithiau a chymryd rhan mewn cymdeithasau academaidd rhanbarthol.
- Cyfrannu at ymrwymiad y Brifysgol i gynaliadwyedd.
- Gweithio'n strategol gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Prifysgolion Cymru, y Cyngor Prydeinig, Cyrff Anllywodraethol, a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo ystod o weithgareddau'r Brifysgol yn y rhanbarth ac i sicrhau cefnogaeth ar gyfer datblygiadau newydd.
- Cynrychioli'r Brifysgol yn swyddogol a dirprwyo ar ran y Rhag Is-ganghellor Gweithgarwch Rhyngwladol yn fewnol ac yn allanol, pan fydd angen.

Bydd disgwyl i'r Deoniaid Rhanbarthol deithio dramor yn ôl yr angen i gyflawni gofynion y rôl, yn unol â chyfarwyddiadau a chytundeb y Rhag Is-ganghellor Rhyngwladol, ac yn unol â pholisi Teithio a Threuliau'r Brifysgol ac uchelgeisiau cynaliadwyedd.

Bydd y Deon Rhanbarthol ar gyfer Tsieina yn gweithio gyda'r Rhag Is-ganghellor Rhyngwladol a Chadeirydd Sefydliad Confucius Caerdydd (CCI) i ddarparu cyfeiriad strategol i'r Sefydliad ac i oruchwylio ei ddatblygiad.

Yn benodol, bydd y Deon Rhanbarthol ar gyfer Tsieina yn:

- goruchwylio datblygiad strategol CCI, gan gynnwys paratoi dogfennau strategol, cyflwyno strategaethau CCI i randdeiliaid fel y bo'n briodol;
- cynghori ar ddatblygiadau cyfredol yn fewnol ac yn allanol i'r Brifysgol i roi cyfeiriad strategol;
- cynrychioli CCI yn fewnol ac yn allanol;
- goruchwylio’r holl agweddau Ansawdd Academaidd ar y cyd â’r Cyfarwyddwr Academaidd, gan sicrhau bod yr holl safonau dysgu ac addysgu gofynnol a disgwyliedig yn cael eu bodloni;
- goruchwylio cyllideb CCI ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Academaidd;
- goruchwylio rheolaeth CCI, gan gynnwys mynd i gyfarfodydd tîm yn ôl yr angen, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd briffio gyda'r Cyfarwyddwr Academaidd a'r Rheolwr Cyffredinol.

**Cymwyseddau, Gallu a Phrofiad Allweddol**

- Diddordeb yn y dirwedd addysg uwch, symudedd a gwaith ymchwil fyd-eang yn y rhanbarth, a gwybodaeth amdanynt, ac angerdd i hyrwyddo'r rhanbarth ar draws y sefydliad.
- Hanes academaidd cryf mewn addysgu ac ymchwil/ysgoloriaeth, gan gynnwys profiad o gydlynu a goruchwylio gweithgareddau academaidd.
- Sgiliau arwain amlwg, gan gynnwys y gallu i feddwl yn strategol, creu gweledigaeth a rennir a rhoi newidiadau ar waith.
- Hanes diamheuol o feithrin perthnasoedd gwaith mewnol ac allanol effeithiol a chynhyrchiol.
- Profiad amlwg o ddatblygu a chyflwyno gweithgareddau rhyngwladol, a phrofiad o weithio mewn sefydliadau byd-eang a gyda nhw.
- Dealltwriaeth gadarn o addysg uwch a'r materion cyfoes sy'n effeithio ar ddysgu, addysgu a gwaith ymchwil yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

**Rhinweddau a Sgiliau**

- Sgiliau rhyngbersonol ac arwain tîm cryf, gyda'r gallu i ysbrydoli ac ysgogi eraill a datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol yn y DU a thramor.
- Datrys problemau mewn ffyrdd medrus a’r gallu i gymryd y cam cyntaf, cyfrannu syniadau newydd a gwerthuso arferion, strwythurau, systemau a phrosesau cyfredol yn hyderus a rheoli newid.
- Y gallu i gynrychioli'r Brifysgol ar lefel uwch, yn fewnol ac yn allanol.
- Arddull rheoli cynhwysol a cholegol sy'n gallu meithrin perthnasoedd ar draws sbectrwm eang o randdeiliaid, gan gynnwys cydweithwyr, myfyrwyr ac ystod amrywiol o randdeiliaid.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol, a'r gallu i greu a chyfleu gweledigaeth glir a rhoi ymdeimlad o gyfeiriad a phwrpas i eraill.
- Sgiliau negodi da, hyblygrwydd a meddwl agored gyda sensitifrwydd a dealltwriaeth ryngddiwylliannol.
- Cynnal hygrededd proffesiynol drwy ddangos safonau uchel o arbenigedd academaidd a phroffesiynol.
- Y gallu i weithio mewn lleoliadau cymhleth gydag amwysedd, ac i reoli blaenoriaethau cystadleuol a nifer o faterion.
- Dealltwriaeth gadarn o addysg uwch a materion sy'n effeithio ar ddysgu, addysgu ac ymchwil mewn rhanbarthau allweddol yn fyd-eang.
- Dealltwriaeth ymarferol dda o brosesau cynllunio academaidd, llywodraethu, polisïau a gweithrediadau'r Brifysgol a'u heffaith ar weithgareddau rhyngwladol.